BASW

Y gymdeithas i waith cymdeithasol
a gweithwyr cymdeithasol

# BASW UK – Maniffesto ar gyfer Gwaith Cymdeithasol

Mae Cymdeithas Brydeinig y Gweithwyr Cymdeithasol (BASW) yn galw ar ymgeiswyr seneddol yr holl bleidiau gwleidyddol i addo rhoi eu cefnogaeth i weithwyr cymdeithasol ac i'r plant, oedolion a'r teuluoedd hynny sy'n derbyn eu gwasanaethau




#SWManifesto19 #SocialWorkPledge19

# Yn cefnogi gwaith cymdeithasol a gweithwyr cymdeithasol

## 1 Buddsoddi yn y mentrau rydym eu hangen yn y degawd nesaf yng ngwaith cymdeithasol ym meysydd recriwtio, addysg, datblygiad proffesiynol a dal gafael ar staff.

*Yn ôl yr ymchwil a wnaed gan BASW ag Undeb y Gweithwyr Cymdeithasol gyda Phrifysgol Sba Caerfaddon, yn 2018 roedd 60% o weithwyr cymdeithasol yn rhagweld y buasent yn gadael eu swyddi presennol o fewn y 15 mis nesaf. Mae bron i 40% o'r rhai a ymatebodd yn rhagweld y byddant yn gadael y proffesiwn yn gyfan gwbl.*

*Yn ôl yr Adran Addysg mae'r trosiant staff yn y gwasanaeth plant yn Lloegr yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn ac ar hyn o bryd mae'n sefyll ar 16%, tra bo ffigyrau swyddogol eraill yn dangos bod 15% o weithlu gwaith cymdeithasol 2017/18 yng Nghymru wedi gadael y proffesiwn.*

*Mae gweithlu gofal iechyd a chymdeithasol ffyniannus angen polisi mewnfudo sy'n hyblyg ac sy'n cynnwys sicrwydd bod hawliau ag urddas gweithwyr iechyd a gweithwyr gofal cymdeithasol o wledydd tramor yn cael eu diogelu.*

## 2 Hybu rhan gweithwyr cymdeithasol mewn gwasanaeth iechyd a gofal amlbroffesiwn ac integredig.

*Gall integreiddio cywir a thimau amlddisgyblaeth cyflwyno'r canlyniadau gorau posibl i bawb. Mae gweithwyr cymdeithasol yn hanfodol wrth ddod a gwahanol ffynonellau at ei gilydd i gael yr effaith orau, trwy weithio'n agos gyda theuluoedd a gofalwyr a diogelu hawliau ac urddas.*

*Yn rhy aml fodd bynnag, mae cyfraniad gwaith cymdeithasol mewn sefyllfaoedd integredig yn brin o fuddsoddiad ac arweiniad*

*Mae BASW yn disgwyl i'r Llywodraeth nesaf helaethu rhan gweithwyr cymdeithasol ym mhob sefyllfa integredig lle gall ein harbenigedd trawsnewid bywydau ein dinasyddion mwyaf bregus, a mynd i'r afael a rhai o'n heriau mwyaf o ran ansawdd a gwerth.*

## 3 Mynd i'r afael ag amodau gwaith gwael a beichiau gwaith afreal o uchel i weithwyr cymdeithasol

*Yn ôl ymchwil a wnaed gan Undeb y Gweithwyr Cymdeithasol a Phrifysgol Sba Caerfaddon, o'i gymharu â chyfartaledd y DU, mae amodau gwaith gweithwyr cymdeithasol yn waeth na 90%-95% o swyddi eraill yn y sector cyhoeddus yn ogystal â'r sector preifat,*

*Mae gweithwyr cymdeithasol yn gweithio ar gyfartaledd o 64 diwrnod y flwyddyn yn fwy na'r hyn sydd yn eu cytundebau, cyfartaledd o 11 awr yr wythnos. Y prif reswm am straen yw'r lefelau uchel o achosion gwaith a gweinyddol. Mae ansawdd y gefnogaeth i wasanaethau plant ac oedolion yn dibynnu ar roi amodau gwaith cywir i weithwyr cymdeithasol.*

*Mae ymchwil diweddar gan Ofal Cymunedol wedi dangos bod bron i 73% o weithwyr cymdeithasol heb gynllun clir i ddatblygu eu gyrfaoedd. Mae BASW a'n partneriaid yn gwybod sut y gellir cildroi hyn trwy well ymarferiadau gwaith - ond bydd hyn yn golygu buddsoddiad hefyd.*

## 4 Cefnogi a buddsoddi mewn ymarferiad gwaith cymdeithasol sy'n hybu hawliau, urddas, hunan benderfyniad a photensial pob plentyn, oedolyn a chymuned.

*Mae ymgyrch ymchwil 80/20 BASW wedi dangos mai un o brif achosion straen ar weithwyr cymdeithasol yn y rheng flaen, yw'r diffyg adnoddau i ddefnyddwyr y gwasanaethau a'r prinder amser i gael gweithio gyda hwy wyneb yn wyneb.*

*Mae ymarferiad sy'n seiliedig ar berthynas yn sylfaenol i waith cymdeithasol ond yn rhy aml, mae gwaith gweinyddol, sy'n haws i'w fesur, yn gorfod cael blaenoriaeth er anfantais i blant a theuluoedd.*

*Mae gweithwyr cymdeithasol yn chwarae rhan allweddol wrth helpu pobl gydag anghenion iechyd meddwl neu anableddau dysgu i fyw bywydau annibynnol y tu allan i ofal mewn sefydliadau preswyl.*

*Mae grymuso gwaith cymdeithasol yn y gymuned, sy'n canolbwyntio ar gryfderau ag asedau pobl, yn hanfodol i gefnogi teuluoedd i allu cael mynediad at y gefnogaeth iawn ar yr adeg iawn.*

## 5 Dod a chynildeb yn y gwasanaethau cyhoeddus i ben: buddsoddi mewn gofal cymdeithasol a diwygio Credyd Cynhwysol

*Mae 14 miliwn o bobl yn byw mewn tlodi yn y DU ac nid yw'r gallu i bob dinesydd cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus yn ddigonol: i ddod a chynildeb i ben, rhaid ymdrin â'r anghyfiawnder yma fel blaenoriaeth*

*Gweithwyr cymdeithasol yw'r rhai sydd at y rheng flaen pan ddaw i doriadau mewn cyllidebau Awdurdodau Lleol. Mae'r toriadau hyn wedi taro gwasanaethau hanfodol i'r henoed, plant, teuluoedd, unigolion a gofalwyr mor galed dros y degawd diwethaf, yn ogystal â diwygiadau creulon a gwrthgynhyrchiol i'r system Lles. .*

*Pob diwrnod, bydd gweithwyr cymdeithasol yn dod ar draws canlyniadau ariannol, iechyd ac ymddygiad negyddol gan ddefnyddwyr y gwasanaethau. Gwelwyd sancsiynau mewn budd-daliadau, megis pobl gydag anableddau yn cael eu cosbi'n annheg fel mae'r raddfa o 75% o apeliadau llwyddiannus yn erbyn asesiadau PIP[1] ag ESA[2] yn dangos yn glir. Mae eraill yn cael eu gorfodi allan o'r system yn gyfan gwbl.*

*Ymysg mesurau eraill, mae BASW yn gofyn i'r Llywodraeth nesaf dileu, yn ddi-oed, y cap dau blentyn ar gredydau treth plant a bod y cyfnod mae hawlwyr Credyd Cymhwysol yn gorfod aros, yn dod i ben.*

## 6 Gwrthdroi preifateiddio gwastraffus a'r modelau gofal iechyd a chymdeithasol ar sail elw

*Mae gofal iechyd a chymdeithasol yn cael ei breifateiddio a'i dorri'n ddarnau yn gynyddol. Mae yna bryderon difrifol am gyn lleied sy'n hysbys am effaith y modelau hyn ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a'r gymuned ehangach.*

*Mae BASW hefyd yn poeni am yr adnoddau sy'n cael eu tynnu allan o'r sector cyhoeddus ac felly'n cam-ystumio rhwymedigaethau'r wladwriaeth yn ogystal â'r diffyg craffu a chyfrifoldeb democrataidd i gleifion, defnyddwyr y gwasanaethau, teuluoedd, gofalwyr a threthdalwyr.*

*Cafodd sector gofal cymdeithasol i oedolion diffygiol, yn ogystal â charchardai preifat ac arbrofion ar y gwasanaeth prawf eu heffeithio'n galed wrth i gwmnïau sy'n cael eu gyrru gan elw ymuno a'r farchnad; rhaid sicrhau nad yw hyn yn cael ei ailadrodd mewn mannau eraill.*

## 7 Datrys yr argyfwng digartrefedd ledled y DU

*Mae gwreiddiau digartrefedd eang a gwarthus yn gorwedd gyda'r diffyg cartrefi fforddiadwy a blynyddoedd o bolisïau diffygiol ar baratoi cartrefi. Yn aml iawn, fodd bynnag, mae digartrefedd yn broblem gymhleth ddiysgog hefyd i unigolion sy'n gysylltiedig â chyflyrau eraill megis iechyd meddwl, tlodi tra mewn gwaith, camddefnydd o gyffuriau, y dull 'amgylchedd gelyniaethus' tuag at fewnfudo yn cynnwys diffyg cymorth o gyllid cyhoeddus, trais yn y cartref a chwalfa deuluol. Mae pob un o'r rhain wedi dioddef o ddiffyg adnoddau sylweddol.*

*Yr unig ateb yw cael dull gweithredol cysylltiedig ar y cyd ar draws y Llywodraeth gyda mwy o gartrefi fforddiadwy a mwy o adnoddau ataliol. Rhaid gweithredu ar frys i ateb y diffyg yn y cymorth sydd ar gael a' r prinder tai.*

## 8 Beth bynnag fydd canlyniad Brexit, diogelwch yr heddwch sydd yng Ngogledd Iwerddon a'r ddeddfwriaeth ar hawliau dynol sy'n diogelu pob dinesydd

*Proffesiwn sydd wedi angori ar hawliau dynol yw gwaith cymdeithasol. Mae cytundebau amlochrog byd-eang, megis cytundebau hawliau dynol, yn ogystal â meini sylfaenol heddwch megis Cytundeb Gwener y Groglith, yn hanfodol i ddiogelu'r rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas, nid yn unig yn y DU ond ledled y byd. Byddai Brexit a fyddai'n bygythiad i unrhyw gytundeb o'r fath yn achosi mwy o boen i'r rhai hynny sy'n lleiaf abl i ddygymod; hefyd bydd unrhyw Brexit a fyddai'n cyhoeddi dwysâd mewn agweddau ymosodol tuag at fewnfudwyr yn creu perygl gwirioneddol i gydlyniad cymdeithasol.*

**Byddwch cystal â gadael i mi wybod eich bod am addo rhoi eich cefnogaeth trwy anfon e-bost ataf a thrydar gan ddefnyddio hashnodau #SWManifesto19 a SocialWorkPledge19**

[1] Taliadau Annibyniaeth Personol
[2] Lwfans Cyflogaeth a Chymorth

BASW

The professional association for
social work and social workers

www.basw.co.uk

#SWManifesto19 #SocialWorkPledge19

